CPS

Darllen Hawd

# Safonau Gwasanaeth Dioddefwyr

Beth all dioddefwyr ei ddisgwyl oddi wrth Wasanaeth Erlyn y Goron




# Darllen Hawdd




Mae hon yn fersiwn Darllen Hawdd o rywfaint o wybodaeth. Efallai nad yw'n cynnwys yr holl wybodaeth ond bydd yn dweud wrthych am y rhannau pwysig.




Mae'r llyrfryn Darllen Hawdd hwn yn defnyddio geiriau a lluniau haws. Gall fod angen help ar rai pobl i'w ddarllen o hyd.




Mae rhai geiriau mewn print **trwm** – Mae hyn yn golygu bod yr ysgrifen yn fwy trwchus ac yn dywyllach. Mae'r rhain yn eiriau pwysig yn y llyfryn.




Weithiau os yw gair mewn print trwm yn anodd i'w ddeall, byddwn yn esbonio'r hyn mae'n ei olygu.




Mae geiriau glas ac wedi'u tanlinellu yn dangos dolenni i wefannau a chyfeiriadau e-bost. Gallwch glicio ar y dolenni hyn ar gyfrifiadur.

# Beth sydd yn y llyfryn hwn

Ynghylch y llyfryn hwn....4

Dioddefwyr a'r CPS: beth yw ein rôl?....6

Beth gallwch ei ddisgwyl oddi wrth ein gwasanaeth....9

Pa help y gallwch ei gael oddi wrth y CPS....12

Dysgu mwy....28

# Ynghylch y llyfryn hwn




Mae'r llyfryn hwn gan **Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS)**.

Ni yw'r sefydliad sy'n mynd ag achosion troseddol i lys.



Bydd y llyfryn hwn yn dweud wrthych beth y gallwch ei ddisgwyl oddi wrthym os ydych yn **ddioddefwr** trosedd.



**Dioddefwr** yw rhywun sy'n cael ei niweidio neu ei anafu oherwydd trosedd.



Rydym yn gwybod ei bod yn anodd i fod yn ddioddefwr.



Rydym am sicrhau bod mynd i'r llys yn hawdd a chyfforddus i chi.



Edrychwch ar ein canllawiau dioddefwyr ar-lein am esboniad eglur o'r hyn sy'n digwydd pan ddaw achos i'r CPS.



Gallwch ddarllen y fersiynau Darllen Hawdd o'r canllawiau hyn yma: [www.cps.gov.uk/information-and-support-victims-witnesses/easy-read](http://www.cps.gov.uk/information-and-support-victims-witnesses/easy-read)

# Dioddefwyr a’r CPS: beth yw ein rôl?



Mae’r CPS yn sefydliad **annibynnol**.

Mae hyn yn golygu nad ydym yn rhan o’r llywodraeth na’r heddlu.



Pan drosglwyddir achos i ni, mae’n rhaid i ni benderfynu a ddylem fynd ag ef i lys.




I’n helpu i benderfynu, rydym yn edrych ar **dystiolaeth**.

**Tystiolaeth** yw gwybodaeth sy’n dangos beth ddigwyddodd pan ddigwyddodd trosedd.





Gall tystiolaeth fod yn:

- Ffeithiau, gan gynnwys yr hyn mae pobl yn dweud ddigwyddodd.



- Gwrthrychau a dogfennau.




Os ydym yn penderfynu mynd ag achos i lys, gallwn ofyn i **ddioddefwyr** a **thystion** ddweud wrth y llys beth ddigwyddodd.

Rydym yn galw hyn yn **rhoi tystiolaeth**.



Os ydym yn penderfynu mynd ag achos i lys, nid yw'n golygu mai ni yw cyfreithiwr y dioddefwr.



Ond byddwn yn parhau i'ch cynorthwyo os ydych yn ddioddefwr. Mae'r llyfryn hwn yn esbonio sut y byddwn yn eich cynorthwyo.




Os ydych yn ddioddefwr, gallwch hefyd gael eich galw'n **dyst** yn yr achos.


**Tyst** yw rhywun sy'n dweud wrth y llys beth mae'n gwybod am y drosedd, fel:




- Yr hyn a welodd.





- Yr hyn a glywodd.





- Gwybodaeth arall am yr hyn a ddigwyddodd.

# Beth gallwch ei ddisgwyl oddi wrth ein gwasanaeth




Mae gan y CPS rai pethau o’r enw **Safonau Gwasanaeth i Ddioddefwyr**. Bydd y Safonau Gwasanaeth i Ddioddefwyr yn esbonio sut y byddwn yn trin dioddefwyr.

Y 3 **safon** yw:



1. **Byddwn yn eich trin â pharch ac yn siarad â chi yn garedig.**



Mae hynny’n golygu y byddwn yn eglur a charedig pan gyfathrebwn â chi.



Byddwn yn gwrando ar eich anghenion ac yn eu hateb pryd bynnag y gallwn.



2. **Byddwn yn esbonio unrhyw benderfyniadau a wnawn bob amser a pham rydym wedi eu gwneud.**



Mae hynny'n golygu y byddwn yn cysylltu â chi ac yn rhoi gwybodaeth i chi. Os bydd ei hangen arnoch, byddwn yn rhoi'r wybodaeth honno mewn iaith wahanol neu mewn Darllen Hawdd.



Gallech hefyd glywed oddi wrth sefydliadau eraill. Byddwn yn gweithio'n agos gyda nhw er mwyn i chi gael gwybodaeth eglur o un lle.



**3. Byddwn yn gwrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud am ein gwasanaethau.**



Gallai hyn fod a ydych yn hapus neu'n anhapus. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalen 27.

# Pa help y gallwch ei gael oddi wrth y CPS



Mae gennych **hawliau** os ydych yn ddioddefwr trosedd.




**Hawliau** yw pethau y dylai fod gan bob person trwy gyfraith. Fel yr hawl i allu deall a chael eich deall.



Mae gennych yr hawl i gael mathau penodol o help oddi wrfth y CPS.



Dyma'r ffyrdd y gallwn eich helpu, gan ddechrau ar y dudalen nesaf:

# Byddwn yn ateb eich cwestiynau mewn llys




Gallech fod wedi gofyn i roi tystiolaeth mewn llys.



Cyn i chi wneud hyn, bydd rhywun o'n **tîm erlyn** yn cyflwyno ei hun i chi.



**Timau erlyn** yw timau o bobl sy'n ceisio profi bod rhywun wedi cyflawni trosedd.



Gallwch ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych i'r person o'n tîm erlyn am roi tystiolaeth.



Gallwn hefyd eich cynorthwyo trwy ad-dalu unrhyw arian rydych yn ei wario ar roi tystiolaeth mewn llys.



Byddwn yn talu i chi gyrraedd y llys a mynd adref eto.

Gallwch hefyd ofyn i ni dalu am:



- Rywun i warchod eich plant, os ydynt gyda chi.



- Arian a gollwch oherwydd na allwch weithio tra'ch bod mewn llys.



- Bwyd a diod a brynwch tra'ch bod mewn llys.



I ofyn i ni am yr arian hwn yn ôl, bydd angen i chi lenwi ffurflen ar ôl i chi roi tystiolaeth mewn llys.




Gallwch ganfod y ffurflen yma:

[www.claim-witness-expenses.cps.gov.uk/](www.claim-witness-expenses.cps.gov.uk/)



Bydd y ffurflen yn gofyn i chi am dderbynebau sy'n profi beth rydych wedi ei wario, felly sicrhewch eich bod yn cadw'r rhain yn ddiogel.

# Cymorth â rhoi eich tystiolaeth - Mesurau Arbennig



**Mesurau Arbennig** yw ffyrdd gwahanol o roi tystiolaeth mewn llys i'ch helpu i deimlo'n fwy cyfforddus.

Mae Mesurau Arbennig yn cynnwys pethau fel:



- Rhoi tystiolaeth y tu ôl i sgrîn fel na allwch weld y **diffynnydd**.

  Y **diffynnydd** yw'r person sydd wedi cael ei gyhuddo o'r drosedd.



- Rhoi tystiolaeth trwy alwad fideo o'r tu allan i ystafell y llys.



- Recordio eich tystiolaeth ar fideo.

Gallwch ofyn am Fesurau Arbennig os yw unrhyw un o'r rhain yn gymwys i chi:



- Rydych o dan 18.



- Mae gennych anabledd a fyddai'n effeithio ar eich tystiolaeth mewn llys.




- Rydych yn teimlo'n ofnus iawn am roi tystiolaeth mewn llys.



- Rydych yn ddioddefwr camdriniaeth ddomestig, treisio neu ymosodiad rhywiol.

  Mae rhagor o wybodaeth am gymorth i ddioddefwyr treisio neu ymosodiad rhywiol yn y rhan nesaf.



- Rydych yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern.



Gallwch hefyd ofyn am Fesurau Arbennig os ydych yn ddioddefwr neu’n dyst i drosedd yn ymwneud â gwn neu gyllell.



Gallwch ddysgu mwy am Fesurau Arbennig yn ein canllaw i ddioddefwyr:

[www.cps.gov.uk/information-and-support-victims-witnesses/easy-read](www.cps.gov.uk/information-and-support-victims-witnesses/easy-read)


## Cymorth i ddioddefwyr treisio ac ymosodiad rhywiol difrifol



Os yw rhywun yn gwneud rhywbeth rhywiol i chi, mae’n drosedd os yw’n ei wneud heb eich **cydsyniad**.



Mae **cydsyniad** yn golygu eich bod wedi cytuno i rywbeth.



Neu, gallai rhywun feddwl yn onest eich bod wedi cytuno i rywbeth.

Gelwir hynny yn meddu ar **gred resymol** yn eich cydsyniad.



**Treisio** yw pan mae rhywun yn cael rhyw gyda chi pan nad ydych wedi cytuno iddo.




**Ymosodiad rhywiol** yw pan mae rhywun yn cyffwrdd â chi mewn ffordd rywiol nad ydych wedi cytuno iddi.



Os ydych yn ddioddefwr treisio neu ymosodiad rhywiol, byddwn yn rhoi **Swyddog Ymgysylltu a Dioddefwyr** i chi.



Dyma berson y gallwch gysylltu ag ef/hi pan fydd gennych gwestiwn am faterion sy'n ymwneud â ni.



Gallwch hefyd ofyn am gyfarfod â rhywun o'n tîm erlyn cyn i chi roi tystiolaeth mewn llys.



Gallwch ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych am roi tystiolaeth i'r person o'n tîm erlyn.





Gallwch hefyd ddarllen ein canllaw darllen hawdd ar-lein yma: https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/RASSO-Victims-Guide-Easy-Read-WEB-ACCESSIBLE.pdf


# Cymorth i deuluoedd sydd wedi colli anwylyn



Mewn rhai achosion, mae rhywun wedi marw oherwydd y drosedd.



Byddwn yn cynnig cyfarfod â theuluoedd sydd wedi colli rhywun i esbonio'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud a pham rydym wedi eu gwneud.





Byddwn hefyd yn cynnig cyfarfod â theuluoedd ar ôl i'r achos orffen, i siarad am yr hyn sy'n digwydd nesaf.

# Cael gwybod am benderfyniadau


Byddwn yn rhoi gwybod i chi os penderfynwn:



- Atal achos a pheidio â mynd af ef i lys.




- Newid yr achos, er enghraifft, newid yr hyn rydym yn swyddogol yn **cyhuddo'r** diffynnydd o'i wneud.



Mae **cyhuddo** yn golygu dweud wrth rywun eich bod yn meddwl bod person wedi gwneud rhywbeth o'i le.





Fel arfer, byddwn yn rhoi gwybod i chi os ydym wedi gwneud penderfyniad newydd o fewn 5 niwrnod.


Byddwm yn rhoi gwybod i chi os ydym wedi gwneud penderfyniad newydd o fewn 1 diwrnod os yw unrhyw un o'r rhain yn gymwys i chi:



- Rydych yn ddioddefwr trosedd ddifrifol iawn.



- Rydych wedi bod yn ddioddefwr trosedd dro ar ôl tro.



- Rydych o dan 18.



- Mae gennych anabledd.

# Ysgrifennu datganiad personol dioddefwr



Cyn mynd i lys, bydd yr heddlu yn gofyn i chi os hoffech ysgrifennu **datganiad personol dioddefwr**.



Mae **datganiad personol dioddefwr** yn ddogfen sy'n esbonio sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi.



Os yw'n cael ei brofi bod y diffynnydd wedi cyflawni'r drosedd, byddwn yn rhannu eich datganiad personol dioddefwr mewn llys.



Gallwch ddarllen eich datganiad personol dioddefwr allan eich hun, neu gallwch ofyn i ni ei wneud ar eich rhan.



Os hoffech ei ddarllen allan eich hun, gallwch wneud hyn â'r un Mesurau Arbennig oedd gennych wrth roi tystiolaeth.

# Gofyn am adolygiad o'n penderfyniad




Weithiau, rydym yn penderfynu peidio â mynd ag achos i lys.





Os ydych yn anhapus â'r penderfyniad hwn, gallwch ofyn i ni edrych ar yr achos eto.

Gelwir hyn yn ofyn am **Hawl Dioddefwr i Adolygiad**.



Nid oes angen i chi roi rheswm i ni pam rydych yn gofyn am yr adolygiad.




Dylech ofyn am adolygiad o fewn 10 **niwrnod gwaith** o ddysgu am ein penderfyniad.





**Dyddiau gwaith** yw dydd Llun i ddydd Gwener. Nid yw dydd Sadwrn na dydd Sul yn ddyddiau gwaith.



I ofyn am adolygiad, cysylltwch â ni.

Gallwch ddysgu sut i gysylltu â ni ar ddiwedd y llyfryn hwn.



Bydd rhywun newydd yn edrych ar eich achos eto ac yn ysgrifennu atoch gan esbonio'r hyn mae wedi ei benderfynu.



Os bydd o gymorth, gallwn siarad â chi wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.




Os ydych yn anhapus o hyd, gallwch ofyn am adolygiad arall.

Bydd hyn yn cael ei wneud gan ran arall o'n sefydliad.

# Dywedwch wrthym beth rydych yn ei feddwl o'n gwasanaethau



Os ydych yn hapus â'n gwasanaethau, dywedwch wrthym, er mwyn i ni allu dysgu o hynny.



Os ydych yn anhapus, gallwch wneud **cwyn**.




**Cwyn** yw pan ddywedwch wrthym eich bod yn anhapus â'n gwasanaethau neu unrhyw benderfyniadau rydym wedi eu gwneud.




Dylech wneud cwyn o fewn 6 mis o'r mater yn digwydd.




I ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl, cysylltwch â ni.

Gallwch ddysgu sut i gysylltu â ni ar ddiwedd y llyfryn hwn.

# Dysgu mwy



Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am unrhyw un o’r pethau a grybwyllir yn y llyfryn hwn yn ein canllawiau i ddioddefwyr:

[www.cps.gov.uk/information-and-support-victims-witnesses/easy-read](www.cps.gov.uk/information-and-support-victims-witnesses/easy-read)

Gallwch gysylltu â ni trwy:




- Fynd i’n gwefan:
  [www.contact.cps.gov.uk/](www.contact.cps.gov.uk/)



- Anfon llythyr at:
  102 Petty France
  Llundain
  SW1H 9EA



Gallwch ganfod manylion cyswllt eich CPS lleol yma:

[www.cps.gov.uk/about-cps/cps-areas-cps-direct-cps-central-casework-divisions-and-cps-proceeds-crime](www.cps.gov.uk/about-cps/cps-areas-cps-direct-cps-central-casework-divisions-and-cps-proceeds-crime)

# Rhagor o gymorth



I ganfod rhagor o gymorth gallwch fynd i'r wefan hon:

www.victimandwitnessinformation.org.uk/



Gallwch hefyd gael cymorth â'ch iechyd meddwl gan y GIG.




I ganfod cymorth GIG gallwch fynd i'r wefan hon:

www.nhs.uk/mental-health/talking-therapies-medicine-treatments/talking-therapies-and-counselling/counselling/

Cafodd y llyfryn Darllen Hawdd hwn ei gynhyrchu gan easy-read-online.co.uk
Mae'r llyfryn yn cynnwys delweddau a drwyddedwyd o Photosymbols & Shutterstock.